**CABINET**

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN, AR DDYDD MERCHER, 17 HYDREF 2018, AM 10.30 A.M.**

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd D. Poole – Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P. Marsden (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau) ac R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol).

Hefyd yn bresennol:

R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), R. Hartshorn (Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd, Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden), S. Richards (Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth) ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

**1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB**

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau dros absenoldeb.

**2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorwyr C. Gordon ac S. Morgan ddiddordebau personol a rhagfarnol ar ddechrau'r cyfarfod mewn perthynas ag Eitem 6 ar yr Agenda – Fframwaith Gofal Cartref. Mae'r manylion wedi eu cofnodi gyda'r eitem briodol.

**3. CABINET – 3 HYDREF 2018**

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2018 (cofnodion rhifau 1–9), a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## 4. ADENNILL COSTAU GLANHAU TIPIO ANGHYFREITHLON

Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet ystyried yr opsiynau sydd ar gael i'r Cyngor i adennill costau glanhau tipio anghyfreithlon oddi ar droseddwyr. Yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2018, ystyriodd y Cabinet adroddiad ynghylch hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer tipio gwastraff heb awdurdod a phenderfynwyd rhoi cosb benodedig ar waith ar gyfer troseddau tipio anghyfreithlon perthnasol ar y lefel uchaf o £400 heb unrhyw ostyngiad ar gyfer talu'n gynnar. Yn y cyfarfod hwnnw, gofynnodd y Cabinet am adroddiad pellach mewn perthynas ag adennill costau glanhau troseddau tipio anghyfreithlon.

Dywedwyd wrth y Cabinet fod y gyfraith tresmasu yn cynnig achos sifil posibl er mwyn ceisio adennill costau glanhau tipio anghyfreithlon. Mae tresmasu'n delio ag ymyrraeth â mwynhau tir, ond mae'n hawliad perchenogol ac felly mae'n opsiwn dim ond mewn amgylchiadau lle mae'r Cyngor yn berchen ar y tir y mae gwastraff wedi'i dipio arno. Mae Gwasanaethau Cyfreithiol wedi cynghori, er bod derbyn a thalu hysbysiad cosb benodedig yn cyflawni atebolrwydd troseddol, mae'r Llysoedd wedi dyfarnu nad yw'n gyfystyr â derbyn euogrwydd. Felly ni allai'r Cyngor ddibynnu ar dalu'r gosb benodedig fel prawf o unrhyw hawliad sifil. Byddai angen o hyd i brofi hyn yn ôl yr hyn sy'n debygol. Mae Cyllid Corfforaethol wedi cynghori nad yw'n ddarbodus i fwrw ymlaen ag achosion Llys Sirol am ddyledion llai a chynigir i'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol fod y rhain yn cael eu dileu.

Trafodwyd y broses adennill costau pan fo'r swm dan sylw yn uwch na'r trothwy adennill dyledion darbodus. Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau gan Bennaeth Diogelwch y Cyhoedd, Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden mewn ymgynghoriad â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol gan ystyried yr angen i'w brofi yn ôl yr hyn sy'n debygol a'r rhagolygon o adennill yn llwyddiannus. Gofynnodd y Cabinet am ymgynghori â'r Aelod Cabinet perthnasol ynglŷn â'r broses hon hefyd. Gofynnodd yr Aelodau hefyd am ystyried defnyddio'r un broses ar dir Comin a chadarnhaodd y Swyddogion y byddai cyngor cyfreithiol yn cael ei geisio yn hyn o beth. Cyfeiriodd un o'r Aelodau at baragraff 4.1. yn yr adroddiad a amlygodd y gost i Gaerffili am lanhau tipio anghyfreithlon yn 2016/17. Cadarnhaodd y swyddogion mai dyma'r cyfanswm cost glanhau sy'n cynnwys llafur a gwaredu gwastraff. Croesawodd y Cabinet yr argymhellion a chredai mai dyma'r cam cyntaf wrth symud ymlaen.

Cynigiwyd ac eiliwyd, yn amodol ar yr uchod, gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD yn amodol ar ddiwygiadau ym mharagraffau 10.1. (i) i gynnwys '*ac os yw'n bosibl yn gyfreithlon ar dir Comin'* ac mewn perthynas â pharagraff 10.1. (ii) i gynnwys *'a'r Aelod Cabinet perthnasol'*, ac am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog: -
>
> (i) mae'r Cyngor yn cymryd camau i adennill costau tipio anghyfreithlon yn erbyn troseddwyr digwyddiadau tipio anghyfreithlon ar dir y Cyngor *ac os yw'n bosibl yn gyfreithlon ar dir Comin* a phan fo'r swm dan sylw yn uwch na'r trothwy adennill dyledion darbodus, gael ei gytuno;
>
> (ii) pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau gan Bennaeth Diogelwch y Cyhoedd, Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden mewn ymgynghoriad â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol *a'r Aelod Cabinet perthnasol, a* gan ystyried yr angen i gael ei brofi yn ôl yr hyn sy'n debygol a'r rhagolygon o adennill llwyddiannus, gael ei gytuno.

## 5. YMGYRCH CRONFA GYMDEITHASOL EWROP – MEITHRIN, CYFARPARU, FFYNNU (MCFf)

Ceisiodd yr adroddiad gymeradwyaeth y Cabinet am ymglymiad Caerffili yn Ymgyrch Cronfa Gymdeithasol Ewrop (CGE) – Meithrin, Cyfarparu, Ffynnu (MCFf).

Esboniodd swyddogion fod Meithrin, Cyfarparu a Ffynnu (MCFf) yn ymgyrch i fynd i'r afael â thangyflogaeth ar draws 5 Awdurdod Lleol (Caerffili, Torfaen, Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr) yn ne-ddwyrain Cymru (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd). Cyflawnir hyn trwy ddull cydweithredol. Nod yr Ymgyrch yw ymgysylltu, cefnogi a pharatoi unigolion a gyflogir â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith a/neu rwystrau eraill i gael cyflogaeth gynaliadwy. Mae ymgyrch bresennol CGE, Pontydd i Waith 2, yn darparu cymorth cyflogaeth i oedolion di-waith 25+ oed, tra bod Sgiliau Gwaith i Oedolion 2 yn cynnig cyfleoedd hyfforddi ar gyfer y rheini sydd â gwaith â lefel isel o sgiliau a thâl isel.

Cynghorwyd y Cabinet nad yw Sgiliau Gwaith i Oedolion yn gallu cynnig cymorth arall, megis hyfforddi, ysgrifennu CV ac ati sydd yn aml yn angenrheidiol ar gyfer y rheini sydd yn y gwaith mwyaf ansefydlog i wella eu sefyllfa yn y farchnad lafur. Mae'r grŵp targed ar gyfer ymgyrch MCFf yn gyflogedig felly ni ellir eu cefnogi gan Bontydd i Waith ond byddant yn elwa ar gefnogaeth ychwanegol i'r cyfleoedd hyfforddi a gynigir gan Sgiliau Gwaith i Oedolion. Cyfeiriwyd yr Aelodau at baragraff 4.7. yn yr adroddiad sy'n nodi sut y caiff yr ymgyrch ei datblygu a'r ystod o weithgareddau a fydd ar gael i wella sefyllfaoedd cyfranogwyr yn y farchnad swyddi. Bydd Caerffili yn anelu at gefnogi 326 o gyfranogwyr dros 5 mlynedd. Cyfeiriwyd at baragraff 7.2. ac esboniodd y Swyddogion fod y gost arian "go iawn" i Gaerffili yn llai na'r arian cyfatebol "pennawd" a nodwyd yn y model ariannol. Yn yr achos hwn, rhagamcanir na fydd unrhyw gostau arian ychwanegol i Gaerffili.

Trafododd yr Aelodau'r weithred a'i hymgysylltiad â mentrau, asiantaethau a sefydliadau eraill yn lleol ac yn rhanbarthol. Y bwriad yw sicrhau nad yw'r ddarpariaeth yn cael ei dyblygu ac y mae'n cael ei marchnata'n effeithiol gyda mecanwaith atgyfeirio priodol i annog ymgysylltu. Bydd yr ymgyrch hon yng Nghaerffili yn gweithio'n agos gyda'r adran rhenti Tai fel ffordd o gyfeirio. Eglurwyd bod yr Adran Addysg hefyd yn ymgysylltu â, ac yn cyd-fynd yn agos â'r Tîm Adfywio.

Fe'i cytunwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo.
Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, fod cyfraniad Caerffili yng Nghynllun Cronfa Gymdeithasol Ewrop "Meithrin, Cyfarparu a Ffynnu" yn cael ei gymeradwyo.

## 6. FFRAMWAITH GOFAL CARTREF

Datganodd y Cynghorwyr C. Gordon ac S. Morgan ddiddordebau personol a rhagfarnol mewn perthynas â'r eitem hon gan fod gan y ddau ohonynt ffrindiau personol agos sy'n ddarparwyr gwasanaeth. Gadawsant yr ystafell pan gyflwynwyd yr adroddiad ac ni chymerant ran yn y ddadl na'r bleidlais.

Ceisiodd yr adroddiad farn yr Aelodau ar yr argymhellion a gynigiwyd i fynd ymlaen i gomisiynu trefniant Gofal Cartref newydd, gan leihau'r aflonyddwch ar unigolion sydd ar hyn o bryd yn derbyn y gwasanaeth tra'n cynyddu'r gallu i ddiwallu anghenion a nodwyd. Amlinellwyd y trefniadau presennol ar gyfer darparu gofal cartref a gomisiynwyd yn allanol ac a ddarparwyd yn fewnol ym Mwrdeistref Caerffili. Amlygwyd rhai o'r anawsterau a'r materion sy'n wynebu'r sector gofal cartref yn lleol a chenedlaethol yn yr adroddiad. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar 19 Mehefin 2018 a chafodd ei ohirio yn y Cyfarfod hwnnw gan fod yr Aelodau'n mynegi pryderon ynghylch y Model Gofal Cartref newydd. Roeddent o'r farn y byddai'n briodol clywed tystiolaeth arbenigol cyn gwneud

argymhellion i'r Cabinet. Gofynnodd yr Aelodau am wahodd Cynrychiolwyr o Ddarparwr Gwasanaeth Allanol, Undeb Llafur a Defnyddiwr Gwasanaeth a/neu Gynrychiolydd i fynychu cyfarfod yn y dyfodol i roi eu safbwynt ar y model.

Cynghorwyd y Cabinet yr oedd Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr a Chynrychiolydd yr Undeb Llafur, Unsain, yn bresennol yn y Cyfarfod Craffu dilynol a gynhaliwyd ar 11 Medi 2018, i roi eu safbwynt ar y Model newydd. Cefnogodd yr Undeb Llafur y ddarpariaeth fewnol a chefnogodd yr adroddiad yn gyffredinol. Teimlant fod y fframwaith yn cynnig cyfle pwysig mewn meysydd allweddol i sicrhau lleoedd gwaith a bydd darparwyr gwasanaethau allanol eu hunain hefyd yn gweld y manteision. Hoffent weld cydnabyddiaeth Undeb Llafur neu fynediad i'r gweithle wrth symud ymlaen. Cyfeiriodd Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr at Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol 2016, sydd wedi cyflwyno mesur gwahanol gyda phwyslais ar ‘Sgyrsiau am yr hyn sy'n bwysig a pha Ofal/Seibiant sydd ei angen’. Eglurodd fod recriwtio ym maes Gofal Cymdeithasol mewn argyfwng a chefnogodd yr argymhellion yn yr adroddiad. Dywedodd y dylid llongyfarch y Cyfarwyddwr wrth gyflawni'r Model newydd hwn gan y bydd y dull hwn yn ceisio sicrhau parhad a chysondeb i'r bobl sy'n derbyn gwasanaeth ar hyn o bryd. Budd ychwanegol yw cyflwyno ‘bloc’ o oriau a gynigir yn wythnosol gyda syniad o'r adegau y dylid diwallu ag anghenion ‘cymwys’ yr unigolyn. O safbwynt y Gofalyddion, dywedodd fod y Model hwn yn gam i'r cyfeiriad cywir sy'n cynnig mwy o hyblygrwydd. Roedd y Pwyllgor Craffu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad gydag argymhelliad ychwanegol *na fydd y ddarpariaeth fewnol yn lleihau i lai na'r ganran gyfredol sy'n cynrychioli 28% o'r ddarpariaeth gwasanaeth*.

Trafododd y Cabinet y contract arfaethedig am gyfnod o 10 mlynedd (4 blynedd gyda 2 + 2 + 2 o flynyddoedd) y cyfeirir ato ym mharagraff 4.11 yn yr adroddiad. Esboniodd swyddogion, cyn belled â bod perfformiad yn cael ei gynnal ar y lefel y cytunwyd arni, byddai hyn yn helpu pob darparwr i fuddsoddi yn ei fusnes, cynllunio ar gyfer y dyfodol a sicrhau adnoddau ariannol lle bo angen. Byddai'r cyfnod 4 blynedd cychwynnol yn caniatáu i'r Awdurdod wneud dyfarniad wrth symud ymlaen. Dywedwyd wrth yr Aelodau, er bod gofyniad i dendro am Wasanaeth Gofal yn y Cartref newydd, mae risgiau'n gysylltiedig â'r broses hon. Mae'r rhain yn cynnwys y posibilrwydd o gynnydd sylweddol ar gostau cyfredol y gwasanaeth hwn a fydd yn bwysau pellach ar gyllideb y Gyfadran. Bydd Darparwyr Gwasanaeth hefyd yn gweld newidiadau i'r ffordd y mae rheoleiddio yn effeithio ar wasanaethau ar lefel gyflenwi a rheoli gyda chyflwyniad y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol.

Croesawodd yr Aelodau y dull newydd, a chefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad, a phwysleisio pwysigrwydd hanfodol amharu cyn lleied â phosibl ar ddefnyddwyr presennol y gwasanaeth.

Fe'i cytunwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog:-

(i) nodi cynnwys yr adroddiad;

(ii) cytuno ar y dull a gynigir ym mharagraff 4.11 mewn perthynas â'r broses dendro ar gyfer Gwasanaeth Gofal yn y Cartref;

(iii) cydnabod a deall y risgiau sy'n gysylltiedig â'r broses hon;

(iv) ni fydd y ddarpariaeth fewnol yn lleihau i lai na chanran gyfredol sy'n cynrychioli 28% o'r ddarpariaeth gwasanaeth.

## 7. GWAITH CYFALAF

Ceisiodd yr adroddiad gymeradwyaeth y Cabinet i gael mynediad at gronfeydd wrth gefn i ariannu gwaith hanfodol mewn eiddo preswyl ac eiddo seibiant er mwyn galluogi defnyddio cyllideb cyfleusterau ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac addurno cynlluniedig yn yr un adeiladau.

Cynghorwyd y Cabinet fod y systemau Larwm Tân o fewn chwe chartref preswyl ar draws y Fwrdeistref oddeutu pymtheng mlwydd oed a bod cynlluniau ar waith i uwchraddio'r systemau dros y cyfnod tair blynedd nesaf (2 system fesul cartref). Mae Asesiadau Risg Tân diweddar wedi nodi pryderon ynglŷn ag Adrannu Tân yn y cartrefi, sy'n peryglu'r broses gwacáu adeiladau, ac mae nifer o fannau uwchben y nenfydau crog y mae angen eu gwella. Mae hyn o ganlyniad i'r Safonau Tân newydd a gyflwynwyd yn dilyn Trychineb Grenfell. Bydd y gwaith yn cynnwys uwchraddio'r System Larwm Tân yn llwyr a hefyd fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn yr Asesiadau Risg Tân diweddar. Oherwydd y gwaith sy'n ymwneud ag uwchraddio'r systemau, argymhellir cynnwys yr holl waith ar yr un pryd. Mae'r Cyfarwyddwr wedi gofyn am gyflymu'r rhaglen uwchraddio, a'i hariannu drwy Gronfeydd Cyfalaf Gwasanaethau Cymdeithasol 2018/19, gyda'r gwaith yn dechrau fel mater o frys. Yn dilyn proses dendro ddiweddar ar gyfer gwaith Cynnal a Chadw Larymau Tân yn holl adeiladau cyhoeddus CBSC, er nad oedd Gwaith Gwella Tân yn rhan o'r trefniant, rhoddwyd y contract i ‘Ambassador Fire and Security Ltd’. Yn ychwanegol, mae gwaith asbestos a goleuo hanfodol wedi'u nodi yng Nghartref Preswyl Tŷ Iscoed am gost o tua 50K.

Pwysleisiodd Swyddogion nad yw gofyniad y gwaith uwchraddio a gwella yn peri unrhyw berygl i ddefnyddwyr gwasanaeth/preswylwyr, ac ni nodwyd unrhyw faterion gan y Gwasanaeth Tân. Defnyddiwyd y gyllideb cyfleusterau i ariannu'r gwaith hyd yn hyn ac o ganlyniad nid oes digon o arian yn weddill i gyflawni unrhyw waith arfaethedig a gytunwyd ar gyfer 2018/2019 mewn eiddo preswyl a seibiant.

Fe'i cytunwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, y dylid cytuno ar fynediad i gronfeydd wrth gefn am £170K i ymdrin â gwaith hanfodol i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau tân.

Terfynwyd y cyfarfod am 11.05am.

Cymeradwywyd a llofnodwyd ei fod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Hydref 2018.

______________________

CADEIRYDD